**John Griffiths AC /AM**
**Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon**
**Minister for Culture and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/JG/3477/13

Christine Chapman AC/AM
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

6 Rhagfyr 2013

Annwyl Christine,

**CYNIGION AR GYFER CYLLIDEB DDRAFFT LLYWODRAETH CYMRU, 2014-15**

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 29 Hydref, yn dilyn eich cyfarfod Pwyllgor ar 24 Hydref lle roeddwn yn ateb cwestiynau ar y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft mewn perthynas â Diwylliant a Chwaraeon.

Am y tro, yr hyn a wnaf yw ymateb i'r pwyntiau penodol yr ydych wedi gofyn am fwy o wybodaeth yn eu cylch. Byddaf yn hapus i roi gwybodaeth reolaidd ichi yn nes ymlaen ar y meysydd hynny yr ydych wedi gofyn am gael gwybodaeth amdanynt. Bydd hyn yn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol nesaf ar y Rhaglen Lywodraethu. Caiff hwn ei gyhoeddi ym mis Mai.

Fe ddefnyddiaf rifau'r adrannau yr ydych chi wedi'u defnyddio yn eich llythyr.

**3. Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd**

Fel y dywedais yn y Pwyllgor, nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd beth yw hyd a lled toriadau o fewn awdurdodau lleol o ran eu heffaith ar wasanaethau, gan fod yr awdurdodau yn dal i weithio drwy oblygiadau setliad y gyllideb. Rwy'n cadw mewn cysylltiad agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn hyn o beth, a hefyd â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth. Ac mae fy swyddogion yn parhau i fod mewn cysylltiad agos â CLILC a gwasanaethau llywodraeth leol.
O ran y berthynas rhwng lefel y cyllid a ddarperir i weithredu *Strategaeth Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli 2012-16* a *Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010-2015*, a'r deilliannau penodol y maent wedi'u cyflawni hyd yn hyn, mae CyMAL yn helpu. Mae'n rhoi grant i'r sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd i gyflawni eu strategaethau drwy brosiectau. Prosiectau yw'r rhain sy'n cyflawni'r union ddeilliannau sydd wedi'u hamlinellu yn y cynlluniau blynyddol y cytunwyd arnynt fel rhan o strategaethau cenedlaethol. Mae'r

deilliannau sy'n ymwneud â chynyddu'r nifer sy'n ymddiddori a gwella mynediad i adnoddau yn ganolog i strategaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd. Dyma rai ohonynt:

- Cynyddu'r nifer sy'n ymddiddori drwy raglen i ddatblygu cynulleidfaoedd cenedlaethol er mwyn hyrwyddo gwasanaethau;
- Hwyluso mynediad i'r cyhoedd i wasanaethau ar-lein drwy fentrau caffael a digideiddio cenedlaethol cost-effeithiol, papurau newydd, hanes teuluol a chatalogau/casgliadau;
- Cyfoethogi bywydau pobl drwy weithgareddau penodol:
  - Cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc o ardaloedd difreintiedig sy'n ymddiddori mewn amgueddfeydd, drwy *Kids in Museums* a gwaith Comisiynydd Plant Cymru
  - Cynllun trafnidiaeth i'w gwneud yn bosibl i ysgolion ymweld â Gwasanaethau Archifau lleol;
- Cynyddu'r defnydd cymunedol a wneir o gyfleusterau llyfrgelloedd drwy raglen foderneiddio Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol (mae 6 prosiect llyfrgell wedi cael grantiau yng Nghymru yn 2013-14).

Nod y rhaglen hon yw datblygu'r arfer o gydweithredu yn lleol, yn rhanbarthol, ac yn genedlaethol, i arbed arian, newid trefniadaeth sefydliadau, a darparu gwasanaethau mewn ffordd well sy'n fwy cynaliadwy. Er enghraifft, mae gwaith ar y gweill i gaffael system i reoli llyfrgelloedd Cymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod modd arbed tua 30% (cyfalaf a refeniw) drwy gyd-gaffael system newydd yn hytrach na bod pob awdurdod yn caffael eu systemau eu hunain. Bydd hefyd yn arwain at ddarparu gwasanaethau ar-lein sy'n fwy cost-effeithiol, fel e-lyfrau ac e-gylchgronau. Yn nes ymlaen y mis hwn, byddaf yn lansio e-gylchgrawn newydd ar gyfer 20 o lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru. Mae awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi bod yn cydweithio i drefnu hyn. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio i sicrhau y bydd pawb sy'n defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus yn gallu defnyddio'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol agos. Mae ein cymorth grant ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau llyfrgelloedd lleol yn dod â manteision y gallwn eu mesur. Er enghraifft, drwy gydleoli llyfrgell gyhoeddus gyda gwasanaeth gwybodaeth y cyngor, caffi menter gymdeithasol a chapel ym Margoed, sicrhawyd cynnydd aruthrol yn yr ymwelwyr, gyda 164,000 o bobl yn croesi'r trothwy yn ystod y flwyddyn gyntaf, gwelliant o 134% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## 4. Yr Amgylchedd Hanesyddol

Rwy'n ymwybodol iawn o'r cyfraniad sylweddol y mae sefydliadau llai yn ei wneud i amgylchedd hanesyddol Cymru. Roedd hwn yn un o'r ffactorau a gyfrannodd at fy mhenderfyniad i gyfyngu ar y gostyngiadau i'r gyllideb yn y maes hwn. Byddaf yn parhau i gadw llygad ar y mater.

## 5. Y Cyfryngau a Chyhoeddi

Fel Llywodraeth, mae'r diffyg yng nghyfryngau Cymru yn parhau i fod yn destun pryder mawr inni. Wrth gwrs, nid yw Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol gyfrifol am ddarlledu nac am y diwydiant papurau newydd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch y sefyllfa sy'n datblygu am ei bod yn cael cymaint o effaith ar ein gwaith ac ar gymunedau lleol ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei phryderon yn gyson i Lywodraeth y DU am nifer o faterion mewn perthynas â darlledu ar gyfer y cyhoedd. Mae wedi lobïo'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon cyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU am y Cylch Gwario ym Mehefin 2013 yn pwyso arni i barhau i roi cyllid i S4C. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadlau dros gynnal gwasanaethau llawn yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar lefel genedlaethol a lleol.

Fel y mae tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Silk yn ei adlewyrchu, rydym o'r farn ei bod yn hanfodol gwella system atebolrwydd sefydliadau darlledu'r DU i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i wylwyr a gwrandawyr Cymru. Y ffordd orau o wneud hyn yw cryfhau sefyllfa Gweinidogion Cymru o ran penodi staff y cyrff sy'n rheoleiddio darlledu yng Nghymru. Rydym yn cynnig y dylai Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r sawl a benodir yn Aelod Cymru Ymddiriedolaeth y BBC ac yn Gadeirydd ac Aelodau Awdurdod S4C. Dadleuwyd hefyd y dylai Bwrdd Ofcom gynnwys un aelod sydd â'r cyfrifoldeb penodol dros gynrychioli barn dinasyddion Cymru, ac y dylai Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r aelod hwn hefyd.

Serch hynny, mae angen inni fod yn realistig a chydnabod bod y ffactorau sy'n gyrru newidiadau yn y sector cyfryngau masnachol yn rhai grymus, eu bod nhw'n strwythurol ac yn dechnolegol, ac nad yw'r math o fuddsoddiad ariannol y gall Llywodraeth Cymru ei fforddio yn mynd i fod yn ddigonol i'w goresgyn. Dim ond mewn meysydd arbenigol, fel a adlewyrchir yn y Papur Tystiolaeth i'r Pwyllgor, y gall ein buddsoddiad ariannol ni wneud gwahaniaeth. Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r Cyngor Llyfrau, yn parhau i roi cyllid ar gyfer gwasanaeth newyddion ar-lein dyddiol yn y Gymraeg, sef *Golwg360* (£200,000), yn ogystal â chyhoeddiadau newyddion a materion cyfoes Cymraeg. Mae'n cyllido cylchgrawn newyddion wythnosol *Golwg (£73,000)*, y cylchgrawn materion cyfoes misol *Barn* (£80,000) ac erthyglau penodol ym mhapur newydd wythnosol *Y Cymro* (£18,000). Er y bydd cyllideb y Cyngor Llyfrau ar gyfer y cylchgronau hyn yn cael ei diogelu i raddau helaeth, mae'r Cyngor yn ymwybodol eu bod i gyd dan bwysau oherwydd ffactorau hysbysebu a nawdd yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Ar 11 Hydref, cyhoeddodd Cyngor Llyfrau Cymru fod Golwg Newydd wedi ennill y tendr i ddarparu gwasanaeth newyddion ar-lein yn Gymraeg am dair blynedd arall. Mae Golwg360 wedi datblygu'n adnodd hanfodol i siaradwyr Cymraeg, ac mae tua 8,000 yn ymweld â'r wefan bob dydd. Bydd y cyhoeddiad hwn yn golygu bod modd i'r cwmni adeiladu ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni hyd yma a pharhau i gyflawni'r rôl bwysig o ddarparu gwasanaeth newyddion Cymraeg ar-lein – cyfraniad gwerthfawr i gyflawni Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru.
Mae cyllid Llywodraeth Cymru i'r Cyngor Llyfrau hefyd yn cyfrannu at gylchgronau Saesneg. Mae'r cylchgrawn materion cyfoes chwarterol, *Planet*, yn derbyn £73,000, ac mae atodiad llyfrau sy'n cael ei gyhoeddi gyda chylchgrawn *The Welsh Agenda* yn cael grant o £8,000. Mae dau gylchgrawn llenyddol arall hefyd yn cael cymorth ariannol, sef *New Welsh Review* a *Poetry Wales*.

Gwnaed y gostyngiadau yng nghyllideb Cyngor Llyfrau Cymru ar sail asesiadau o effaith a gyflwynwyd gan y Cyngor. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r Cyngor i sicrhau bod y gwasanaethau pwysicaf yn cael eu diogelu gymaint â phosibl.

Rwy'n ymwybodol bod pethau wedi mynd yn reit anodd ar orsafoedd radio cymunedol sydd wedi elwa ar gyllid y Gronfa Radio Cymunedol. Er bod y Gronfa Radio Cymunedol wedi bod yn hwb sylweddol i'r sector hwn yn amlwg, mae'n werth nodi bod wyth o'r naw gorsaf radio gymunedol sy'n derbyn arian o'r Gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn bod cyn i'r Gronfa gael ei sefydlu. Fel yr esboniais i'r Pwyllgor, roedd y Gronfa i fod i ddod i ben ddiwedd blwyddyn ariannol 2012-13. Pan wnaed y penderfyniad i ymestyn cyfnod y Gronfa am flwyddyn arall, cafodd y gorsafoedd wybod gan Lywodraeth Cymru mai am un flwyddyn yn unig y byddai hyn, er mwyn rhoi cyfle iddynt ddod o hyd i ffynonellau cyllid eraill neu baratoi i fod yn hunangynhaliol ar ôl Mawrth 2014. Bydd fy swyddogion yn parhau i gydgysylltu'n agos â'r gorsafoedd er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o'r ffynonellau cyllid eraill sy'n bod o fewn Llywodraeth Cymru a'r tu allan iddi.

## 6. Chwaraeon ac ymarfer corff

Fel rydych yn ei nodi yn eich llythyr, un o'n prif amcanion yw ei gwneud yn haws i fwy o bobl gymryd rhan mewn chwaraeon a chynyddu lefelau ymarfer corff er mwyn gwella iechyd y genedl. Bydd Chwaraeon Cymru yn cydweithio â'm swyddogion dros y misoedd nesaf i ofalu bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol, fel y gallwn symud yr agenda yn ei blaen. Drwy waith gwerthuso Chwaraeon Cymru ei hun, byddwn yn gallu rhoi data hanesyddol a data diweddar ichi ar y niferoedd sy'n gwneud chwaraeon ac ymarfer corff. Byddaf yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ar y mater hwn ac ar y deilliannau penodol a welwyd yn sgil camau a gymerwyd gan y Llywodraeth gyfan i godi lefelau ymarfer corff. Gwnaf hyn yn dilyn adroddiad 2014 o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Rhaglen Lywodraethu.

Fel y nodais yn fy ymateb ar Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd, nid ydym eto'n gwybod beth yw hyd a lled effaith y toriadau yng nghyllid awdurdodau lleol o ran gwasanaethau hamdden a chwaraeon lleol, gan fod yr awdurdodau'n dal i weithio drwy oblygiadau setliad y gyllideb. Rwy'n cadw mewn cysylltiad agos â CLILC ar y materion hyn. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn cydweithio ag awdurdodau lleol i ddatblygu modelau gweithredu newydd sy'n lleihau costau swyddfa ac yn cynnal y gwasanaeth i'r cyhoedd ar yr un pryd. Gwneir hyn i raddau drwy'r cynllun a gynigiwyd i drefnu cymorth fesul ardal. Mae fy swyddogion yn parhau i fod mewn cysylltiad agos â CLILC a gwasanaethau llywodraeth leol.

Mae'n bleser gen i nodi ein bod wedi llwyddo i ddatblygu cynllun benthyca cyfalaf o £5m i ariannu cynllun peilot a fydd yn cynnig benthyciadau di-log i awdurdodau lleol ar gyfer prosiectau chwaraeon a hamdden. Yn ystod y misoedd i ddod, bydd swyddogion yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu meini prawf y cynllun.

Rwy'n edrych ymlaen at weld eich casgliadau a fydd yn deillio o'r ymchwiliad i'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru.

## 7. Darpariaeth ar gyfer y Bil Teithio Llesol (Cymru)

Mae'r Pwyllgor yn iawn i nodi bod cerdded a beicio yn weithgareddau sy'n cefnogi amcanion ar draws Llywodraeth Cymru ac mae yna ddyraniadau sy'n hybu cerdded a beicio ac ar gyfer darparu seilwaith cerdded a beicio mewn sawl portffolio.

Mae pwysigrwydd gwaith cydlynus effeithiol yn cael ei gydnabod a bu Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a minnau yn cydweithio'n agos wrth i'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) fynd drwy'r Cynulliad.

Rwy'n gweithio gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y cyllidebau yn ei phortffolio ac sy'n darparu ar gyfer datblygiad y Canllawiau Cynllunio a fydd yn helpu i ddatblygu mapiau'r Llwybrau Presennol a'r Llwybrau Integredig. Yn unol â'r symiau a nodwyd yn yr asesiad o effaith y Bil, mae £0.3m wedi'i ddyrannu y flwyddyn nesaf ar gyfer y gweithgareddau hyn.

Wrth i'r Bil fynd drwodd, fe'i gwnes yn glir bob amser y bydd y gwariant ar seilwaith yn dod o'r cyllid presennol, ond bellach byddai'n llawer gwell sianelu'r cyllid hwnnw i greu llwybrau a fyddai'n gwneud gwahaniaeth go iawn gan roi dewis i bobl o ran dull teithio.

Rwyf hefyd yn cydweithio â Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynghylch y cyllidebau cyfalaf o fewn ei phortffolio sy'n darparu ar gyfer gwariant ar y seilwaith teithio llesol a gaiff ei greu mewn ymateb i'r Bil.

Ar hyn o bryd, mae'r Gweinidog Trafnidiaeth yn rhoi cyllid i awdurdodau lleol i ddarparu seilwaith cerdded a beicio drwy ddwy brif raglen grant. Yn y dyfodol, bydd angen i awdurdodau lleol ddarparu'r llwybrau hyn i safon benodol sy'n unol â'r canllawiau cynllunio, a chanolbwyntio ar gysylltedd a hyrwyddo'r defnydd o lwybrau.

Bydd buddsoddiad gan Weinidogion eraill hefyd yn helpu i weithredu'r Ddeddf Teithio Llesol. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er enghraifft, yn cyllido amrywiaeth o raglenni sy'n annog pobl i gerdded a beicio fel rhan o ymgyrch hybu iechyd.

Mae'r Cynllun Gweithredu Teithio Llesol, a gaiff ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn fuan, yn gynllun sy'n cael ei hybu gan y Llywodraeth gyfan, ac mae'n cynnwys camau ar gyfer nifer o bortffolios Gweinidogol.

Yr unig adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu yw costau staff a chostau mân iawn i gynnal digwyddiadau ymgynghori.

## 8. Gwario i arbed arian yn y pen draw

Yr enghraifft amlycaf o wario er mwyn arbed arian yn y pen draw yn fy mhortffolio i yw gwario i gynyddu ffitrwydd corfforol pobl. Mae yna dystiolaeth glir i'r cysylltiad rhwng ffitrwydd corfforol pobl a'u hiechyd a hyd eu bywyd. Roedd hon yn ffactor bwysig imi pan benderfynais gyfyngu ar y gostyngiadau yng nghyllideb Chwaraeon Cymru. Wrth gwrs, mae angen inni barhau i wario mewn ffordd fwy effeithiol yn y maes, a gwerthuso i ba raddau mae arferion ymarfer corff ymhlith pobl ifanc yn parhau'n arferion oes, er mwyn asesu p'un a yw gwariant yn y maes hwn wir yn arbed arian yn y pen draw drwy leihau gwariant ym maes iechyd yn nes ymlaen. Mae annog pobl i fyw bywydau iachach yn hirach yn ganolog i bolisi Llywodraeth Cymru.

Rwyf hefyd am dynnu sylw at elfennau eraill lle gellid gwario i arbed arian yn y pen draw:

- Mae'r rhan fwyaf o feysydd fy mhortfolio (ee chwaraeon, y celfyddydau, llyfrgelloedd, treftadaeth a mynediad i'r amgylchedd hanesyddol, mwynhau cefn gwlad) yn cyfrannu at iechyd a lles meddyliol. Mae costau salwch meddwl i economi Cymru yn sylweddol. Mae'r "Canllaw Maes Anghyflawn Cyntaf i Les mewn Llyfrgelloedd", a gyhoeddwyd ar 11 Ionawr 2013, yn tynnu sylw at gyfraniad llyfrgelloedd i iechyd a lles pobl ledled Cymru. Mewn llenyddiaeth ar effeithiau diwylliant, cydnabyddir yr ymchwil sy'n sôn am y manteision iechyd a ddaw yn sgil dilyn gweithgareddau creadigol a diwylliannol drwy weithdai a therapi celf dan arweiniad artistiaid.

- Mae adroddiad yr Athro Dai Smith ar y Celfyddydau mewn Addysg yn sôn am y dystiolaeth ryngwladol i'r ffaith bod y celfyddydau yn gallu helpu i godi lefelau cyrhaeddiad addysgol, yn enwedig ymhlith plant o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd is. Gall amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth wneud yr un cyfraniad. Mae helpu i godi lefelau cyrhaeddiad addysgol pobl yn debygol o gynyddu eu cyfleoedd bywyd, ac felly yn gallu arbed arian cyhoeddus yn y pen draw. Dyna un o'r rhesymau pam rwy'n gweithio i gynyddu cyfraniad y celfyddydau a threftadaeth i'r ymgyrch i godi lefelau cyrhaeddiad addysgol, gan gydweithio â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i weithredu ar adroddiad yr Athro Smith ac ar yr adroddiad sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd gan y Farwnes Kay Andrews ar ddiwylliant a thlodi.

- Mae gwaith Cadw gyda throseddwyr ifanc ac unedau cyfeirio disgyblion yn cyfrannu at amcanion addysg a chyflogaeth Llywodraeth Cymru. Mae addysg ac ennill sgiliau a

chymwysterau yn cael eu cydnabod yn eang yn ffactorau pwysig er mwyn atal plant rhag troseddu, a lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu yn y tymor hir.

**9. Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn**
Yn gyffredinol, ni chaiff sefydliadau gronni arian o'r cyllid a roddwn ni iddynt. Yn achos Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, y rheol safonol yw y gallant gario 2% o'u cymorth grant o un flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, mae'r Parciau Cenedlaethol wedi cronni cryn arian – ar 31 Mawrth, o gyfrif y cronfeydd sydd gan y tri Pharc y gellir eu defnyddio, mae'n dod i ryw £6m, sy'n 28% o gost flynyddol o £22m i gynnal gwasanaethau.

Fel y dywedais ar ddechrau'r llythyr hwn, rwy'n hapus iawn i roi mwy o wybodaeth yn ôl y gofyn.

Yn gywir,

**John Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

CC Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid